O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 269 (Cy. 32)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 4 (Ffordd Rhuthun), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2013

Gwnaed	*12 Chwefror 2013*
Yn dod i rym	*18 Chwefror 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd, oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Chwefror 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 4 (Ffordd Rhuthun), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2013.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 18 Chwefror 2013 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A483 ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn cyfeirio at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad a Chyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar hyd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar hyd y darnau hynny, ac eithrio cerbyd esempt.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2, ac eithrio cerbyd esempt.

Cymhwyso

5. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, a 4 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y cyfeirir atynt yno yn weithredol.

Parhad y Gorchymyn hwn

6. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 12 Chwefror 2013

R Morgan
RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2, ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11, i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1
Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd sy'n ymestyn o ymwahaniad y ffordd ymadael tua'r gogledd yng Nghyffordd 4 (Ffordd Rhuthun) hyd at ymuniad y ffordd ymuno tua'r gogledd yn y gyffordd honno.

Y darn o brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r de sy'n ymestyn o ymwahaniad y ffordd ymadael tua'r de yng Nghyffordd 4 (Ffordd Rhuthun) hyd at ymuniad y ffordd ymuno tua'r de yn y gyffordd honno.

ATODLEN 2
Terfyn Cyflymder 40mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd sy'n ymestyn o bwynt 2 gilometr i'r de o ganolbwynt Cyffordd 4 (Ffordd Rhuthun) hyd at bwynt 500 metr i'r gogledd o'r Gyffordd honno.

Y darn o gerbytffordd y gefnffordd tua'r de sy'n ymestyn o bwynt 500 metr i'r de o ganolbwynt Cyffordd 4 (Ffordd Rhuthun) hyd at bwynt 2 gilometr metr i'r gogledd o'r Gyffordd honno.